



Safonau'r Gymraeg >> Ein Hymrwymiad
The Welsh Language >> Our Commitment



Ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg

Mae gan bawb yr hawl i gyfathrebu a derbyn gwasanaethau o Goleg Penybont yn Gymraeg, ac rydym yn ymrwymedig at ddarparu'r cyfle hwnnw i'n dysgwyr, gweithwyr ac ymwelwyr.

Sut y byddwn yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Cyfathrebu gyda Chi

Rydym yn croesawu galwadau i'n prif linell ffôn yn Gymraeg, a bydd gan unrhyw alwr y dewis i barhau â'u galwad yn Gymraeg. Wrth alw unrhyw rif estyniad Coleg Penybont byddwch yn cael eich cyfarch yn ddwyieithog, ac os dymunwch barhau â'ch galwad yn Gymraeg gallwch ddisgwyl gwasanaeth Cymraeg. Os nad yw'r person sy'n ateb eich galwad yn siarad Cymraeg, byddant yn cynnig yr opsiwn i chi siarad â rhywun sydd yn, hyd at y pwynt lle bydd angen gwasanaeth arbenigol arnoch chi gan aelod di-Gymraeg o'r tîm.

Croesawn unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg. Os byddwch chi'n ysgrifennu neu anfon e-bost atom ni yn Gymraeg, gallwch ddisgwyl ateb yn Gymraeg yn ddi-oed. Pan ysgrifennwn at grŵp o bobl ar yr un pryd, byddwn bob amser yn gwneud hynny yn ddwyieithog a bydd y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.

Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus

Os gwahoddir i chi fynychu neu siarad mewn cyfarfod byddwn yn gofyn a hoffech chi ddefnyddio'r Gymraeg, ac os gwnewch chi, darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Os ydych chi'n mynychu unrhyw gyfarfod cyhoeddus, mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg a byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu. Bydd unrhyw ddeunyddiau a gwybodaeth gysylltiedig hefyd yn cael eu harddangos ac ar gael yn ddwyieithog.

Cynhyrchir a rhoddir gwahoddiadau i bob digwyddiad a drefnir gan Goleg Penybont yn ddwyieithog (e.e. digwyddiadau agored a seremonïau gwobrwyo).

Tendrau

Bydd gwahoddiadau i dendro yn cael eu cyfathrebu'n ddwyieithog ac rydym yn croesawu cyflwyniadau tendr yn Gymraeg.

Dogfennau, Cyhoeddiadau a Hysbysebu

Bydd yr holl ddeunyddiau argraffedig ac electronig y mae ein safonau yn ymdrin â, megis dogfennau, ffurflenni, gwahoddiadau a chyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar yr adegau lle fydd angen i ni gynhyrchu fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd yn datgan yn glir ei fod ar gael mewn iaith arall.

Digidol ac Ar-lein

Mae ein gwefan a'n presenoldeb ar-lein, gan gynnwys ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, yn gwbl ddwyieithog. Rydym yn cyhoeddi cynnwys Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd, ac os cysylltwch chi â ni yn Gymraeg trwy gyfryngau cymdeithasol, byddwch yn derbyn ymateb Cymraeg yn ddi-oed.

Ein Hamgylcheddau

Bydd unrhyw arwydd newydd neu dros dro sy'n cael ei osod ar ein campysau yn ddwyieithog a gyda'r Gymraeg yn weladwy'n gyntaf. Mae ein derbynfydd hefyd yn darparu gwasanaeth dwyieithog ac mae'n hawdd adnabod ein staff Cymraeg gan eu cortynnau a'u bathodynau.

Ein Polisiâu

Bydd unrhyw bolisi sydd angen cael ei gynhyrchu, ei ddatblygu, ei ymgynghori neu ei adolygu yn ystyried yr effaith y gallai gael ar yr iaith Gymraeg, ac yn ystyried unrhyw gyfleoedd y gallai gynnig fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd yr iaith.

Yn y Gweithle

Gall ymgeiswyr i Goleg Penybont wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys eu cyfweliad ac unrhyw ohebiaeth.

Gall ein staff dderbyn dogfennau neu gael cyfarfodydd sy'n ymwneud â'u cyflogaeth yn Gymraeg, derbyn hyfforddiant a datblygiad iaith Gymraeg, a chael mynediad at feddalwedd cyfrifiadurol yn Gymraeg (os yw ar gael).

Mae gan bawb sy'n gweithio yng Ngholeg Penybont gyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau, nid yn unig ein staff sy'n siarad Cymraeg. Mae hyfforddiant a chymorth wyneb yn wyneb a chronfa adnoddau a gwybodaeth trwy'r porth staff ar gael i'r holl staff.

Yn ein Hamgylcheddau Dysgu

Mae ein proses ymgeisio a chofrestru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae gan ein dysgwyr yr hawl i gael mynediad at nifer o wasanaethau sy'n ymwneud â'u cwrs yn Gymraeg, gan gynnwys gwneud cais am gwrs, cyflwyno'u gwaith, cael eu hasesu a chael cymorth ac arweiniad. Mae dysgwyr hefyd yn gallu derbyn unrhyw dystysgrifau cyflawniad yn y Gymraeg.

Mae Coleg Penybont yn ymrwymedig at gynyddu nifer ein dysgwyr sydd wedi ymgysylltu â chyfleoedd dysgu a chyfleoedd ehangach sy'n ysbrydoli a datblygu eu defnydd o'r Gymraeg a'u dealltwriaeth o werth sgiliau Cymraeg ar gyfer gyrfaedd a'r byd gwaith.

Monitro ac Adrodd

Mae'r iaith Gymraeg, a'r safonau y mae dyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw, yn rhan o'n cyfrifoldebau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad ehangach. Caiff y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn eu harwain ar lefel strategol gan Uwch Dîm Rheoli Coleg Penybont.

Byddwn yn monitro ein cydymffurfiaeth yn rheolaidd, gan sicrhau bod y dystiolaeth ar gael ar gais y Comisiynydd Gymraeg.

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn a bydd yn darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth a chynnydd. Bydd ein hadroddiad blynyddol yn amlinellu os/sut na fyddem wedi bodloni rhai o'r safonau ac a ydym wedi derbyn unrhyw gwynion mewn perthynas â'n darpariaeth a'n gwasanaeth Gymraeg.

Gallwn ni wneud yn well?

Byddwn yn ymdrechu i gydymffurfio â'r safonau'n llwyr, a darparu gwasanaeth cynhwysfawr i unrhyw un sy'n dewis cyfathrebu â ni neu sydd am gael mynediad i'n gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni os ydych chi'n teimlo nad ydym wedi darparu'r gwasanaeth Cymraeg y byddech yn ei ddisgwyl i chi, fel y nodir yn y safonau, fel y gallwn ni gymryd camau i gywiro hyn.

Mae rhestr lawn o'r holl Safonau Gymraeg y mae dyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw ar gael i chi weld ar ein gwefan.

Os hoffech drafod unrhyw beth sy'n ymwneud â'r Safonau Gymraeg, cysylltwch â:

safonaugymraeg@bridgend.ac.uk

Our commitment to the Welsh Language

Everyone has the right to communicate and receive services from Bridgend College in Welsh and we are committed to providing that opportunity for our learners, employees and visitors.

How we will comply with our Welsh Language Standards

Communicating with You

We welcome calls to our main telephone line in Welsh and any caller will have the option to continue their call in Welsh. When calling any Bridgend College extension number you will be greeted bilingually and if you wish to continue your call in Welsh you can expect a Welsh language service. If the person that answers your call doesn't speak Welsh they will offer you the option to speak to someone who does until which point you may need a specialist service from a non-Welsh speaking member of the team.

We welcome any correspondence in Welsh. If you write to us or email us in Welsh you can expect a reply in Welsh without delay. When we write to a group of people at the same time we will always do so bilingually and both languages will be treated equally.

Public Meetings and Events

If we invite you to attend or speak at a meeting we will ask you if you would like to use Welsh, and if you do, a simultaneous translation service will be provided.

If you attend any public meeting you are welcome to use Welsh and a translation service will be provided. Any related materials and information will also be displayed and available bilingually.

Invitations to all events organised by Bridgend College are produced and issued bilingually (e.g. open events and award ceremonies).

Tenders

Invitations to tender will be communicated bilingually and we welcome tender submissions in Welsh.

Documents, Publications and Advertising

All of our printed and electronic materials such as documents, forms, invitations and publications that are covered by our standards will be available in both Welsh and English. On occasions where we need to produce separate English and Welsh versions it will clearly state that it is available in another language.

Digital and Online

Our website and online presence including social media channels are fully bilingual. We publish Welsh and English content at the same time, and if you contact us in Welsh via social media, you will receive a Welsh response without delay.

Our Environments

Any new or temporary sign installed at our campuses will be done so bilingually and with the Welsh visible first. Our receptions also provide a bilingual service and you will easily be able to identify our Welsh speaking staff by their lanyards and badges.

Our Policies

Any policy that needs to be produced, developed, consulted on or reviewed will consider the impact it may have on the Welsh language and any opportunities it poses that could have a positive impact on the use of the language.

In the Workplace

Applicants to Bridgend College are able to do so using the medium of Welsh or English. This includes their interview experience and any correspondence.

Our staff are able to receive documentation or have meetings relating to their employment in Welsh, to receive Welsh language training and development and to access computer software where available in Welsh.

Everyone who works at Bridgend College has a responsibility to ensure we comply in full with our Standards, and not just our Welsh-speaking staff. Both face-to-face training and support and a repository of resources and information via the staff portal are available to all staff.

In our Learning Environments

Our application and enrolment process is available in both Welsh and English.

Our learners have the right to access a number of services relating to their course in Welsh, including applying for a course, submitting their work and being assessed and receiving support and guidance. Learners are also able to receive any achievement certificates in Welsh.

Bridgend College is committed to increasing the number of our learners engaged with learning or wider opportunities that inspire and develop their use of the Welsh language and their understanding of the value of Welsh language skills for careers and the world of work.

Monitoring and Reporting

The Welsh language and the standards that we are duty bound by, sit as part of our wider equality, diversity and inclusion responsibilities. These duties and responsibilities are led at a strategic level by the Senior Management Team at Bridgend College.

We will monitor our compliance regularly, ensuring that evidence is available at the request of the Welsh Language Commissioner.

An annual report will be submitted each year and will provide evidence of compliance and progress. Our annual report will outline where we may not have met any of the standards and whether we have received any complaints in relation to our Welsh language provision and service.

Could we do better?

We will endeavour to comply with our standards entirely and to provide a comprehensive service to anyone choosing to communicate with us or access our services through the medium of Welsh. It is important that you let us know if you feel that we have not been able to provide you with the Welsh service that you would expect, as set out within the standards, so that we can take steps to put things right.

You can see a full list of all the Welsh Language Standards that we have a duty to comply with on our website.

If you would like to discuss anything in relation to our Welsh Language Standards, please contact welshlanguagestandards@bridgend.ac.uk